# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-09-07 (p.4): 15 Tachwedd 2007**

## Ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i Leihau Carbon yng Nghymru

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn cynnwys brîff a fydd yn cynorthwyo aelodau'r Pwyllgor i ddeall yr agwedd ar ei ymchwiliad i leihau carbon yng Nghymru sy'n gysylltiedig â chartrefi.

### Crynodeb / Argymhellion

2. Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys y papur briffio yn Atodiad 1.

### Cefndir

3. Mae Portffolio Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn cyfrannu at yr agenda Datblygu Cynaliadwy drwy sawl thema a gynhwysir yn Cymru'n Un (Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru).

4. Mae'r papur briffio hwn yn amlinellu sefyllfa Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran y sector preswyl (cartrefi newydd a chartrefi presennol) a'r modd y gellir cyflawni amcanion 'Cymru'n Un' ynghylch effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon.

### Y camau i'w cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

5. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

**Jocelyn Davies AC**
**Y Dirprwy Weinidog dros Dai**

Pwynt Cyswllt: Linda Whittaker, Cyfarwyddwr Tai (01685 729176)

**Atodiad 1**

## Lleihau Carbon Mewn tai yng Nghymru.

### Lleihau Carbon mewn Cartrefi Newydd

Ym mis Chwefror 2007 cyhoeddodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd ar y pryd y dyhead y dylai pob adeilad newydd yng Nghymru fod yn ddi-garbon erbyn 2011 ac y byddai'n rhaid i unrhyw ddatblygiad y byddai gan Lywodraeth y Cynulliad ddylanwad drosto, boed yn sgil grant neu yn sgil gwaredu tir, gael ei adeiladu mewn ffordd sy'n cyflawni Safon o ran Cynaliadwyedd h.y. safon ardderchog neu gyfwerth o dan Ddull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu(BREEAM) ar unwaith. Pennwyd yn ogystal y byddai'n rhaid i o leiaf 10% o'r holl ddeunyddiau a ddefnyddir fod yn ddeunyddiau eildro.

Mae dau brif ffrwd gwaith wrthi'n edrych ar sut y gall y polisi gael ei roi ar waith parthed y sector preswyl;

### Tai y Sector Cymdeithasol

Cyflwyno ar unwaith ofyn i dai y gall y Cynulliad ddylanwadu arnynt fodloni safon ardderchog BREEAM neu safon gyfwerth a datblygu strategaeth a fydd yn ei gwneud yn bosibl i godi safonau drwy newidiadau graddol er mwyn cyflawni cartrefi di-garbon erbyn 2011. (Ar hyn o bryd mae cymdeithasau tai yng Nghymru yn cael eu hannog i anelu at safon ardderchog BREEAM).

Unwaith y gwneir penderfyniad ynghylch y ffordd ymlaen bydd safonau newydd ar gyfer tai y sector cymdeithasol yn cael eu rhoi ar waith drwy ddiwygio'r Gofynion Ansawdd Datblygu (GAD) fel eu bod yn cynnwys safon o ran cynaliadwyedd.

Bydd safonau uwch yn gryn welliant o'i gymharu â'r rheoliadau adeiladu presennol.

Rwyf wedi gofyn i Sue Essex arwain Grwp Gorchwyl a Gorffen a fydd yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch sut y gallai'r fframwaith rheoliadol a gweithredol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yng Nghymru gael ei wella er mwyn ei gwneud yn haws i gyflawni nodau 'Cymru'n Un' o safbwynt cartrefi fforddiadwy a chynaliadwy.

### Y Sector Preifat

Mae polisi wrthi'n cael ei ddatblygu, yn sgil y ffaith bod Rheoliadau Adeiladu wedi cael eu datganoli, a fydd yn arwain at gysondeb yn y pen draw. Dylai hyn helpu i gyflawni'r dyhead i bob cartref newydd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat fod yn ddi-garbon erbyn 2011.

Er mwyn cyflawni'r nod o sicrhau bod pob cartref newydd yng Nghymru yn ddi-garbon erbyn 2011, 5 mlynedd cyn Lloegr, bydd yn ofynnol sicrhau bod safonau gorfodol yn cael eu cyflwyno yng Nghymru cyn iddynt gael eu cyflwyno yn Lloegr. Mae Gweinidogion

Cymru wedi datgan yn gyson na ddylai fod gwahaniaeth rhwng safonau tai o fewn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac nad yw ond yn bosibl cyflawni hyn drwy ddeddfwriaeth yn hytrach na thrwy ddibyniaeth ar godau gwirfoddol.

### Costau Cysylltiedig

Bydd cyflwyno safonau uwch yn arwain at gynnydd yng nghost cartrefi newydd. Er enghraifft, byddai adeiladu cartrefi mewn modd sy'n sicrhau eu bod yn cyflawni safon ardderchog BREEAM yn ychwanegu oddeutu 6% at eu cost. Amrywia'r gost amcangyfrifol ychwanegol o adeiladu cartref di-garbon rhwng 13 a 30% ar hyn o bryd.

Wrth i safonau nesáu at fod yn ddi-garbon yn sgil yr elfen o ddewis wrth fodloni'r safon a'r ddibyniaeth ar y defnydd o ynni adnewyddadwy a thechnoleg newydd mae hi'n fwy anodd i ragweld y costau.

### Y Defnydd o Ynni Adnewyddadwy

Heb unrhyw amheuaeth, bydd hi'n ofynnol defnyddio technoleg ynni adnewyddadwy ar gyfer cyflawni statws di-garbon. Gallai hyn achosi problemau ar safleoedd bychain lle gallai'r defnydd o ynni adnewyddadwy fod yn anymarferol neu'n aneconomaidd neu lle gallai fod angen dull arbennig o gynhyrchu pwer oddi ar y safle.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru bob amser wedi annog a hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy yng nghartrefi'r sector cymdeithasol. Er enghraifft, mae gwresogyddion dwr solar, boeleri biomas a phaneli solar wedi cael eu gosod ar y cyd â sawl cymdeithas dai.

### Lleihau Carbon o fewn Cartrefi Presennol

Golyga cyflwyno Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn 2002 fod safon darged gyffredin parthed cyflwr ffisegol pob cartref cymdeithasol presennol yng Nghymru y mae'n rhaid ei chyflawni erbyn 2012. Mae SATC yn pennu y dylai'r defnydd blynyddol o wres ar gyfer dwr ac ystafelloedd gael ei amcangyfrif drwy ddefnyddio dull y Weithdrefn Asesu Safonol ac mae hefyd yn pennu'r statws y mae'n ofynnol ei gyflawni.

Cymeradwyais yn ddiweddar gynllun peilot a fydd yn cael ei reoli gan Sefydliad Ymchwil Adeiladu (SYA) Cymru. Bydd y cynllun hwn yn asesu'r safonau cynaliadwyedd y mae'n bosibl eu cyflawni ar gyfer adnewyddu tai yng Nghymru.

Bydd y gwaith yn cynnwys adnewyddu pum ty yn Ne Cymru mewn modd cynaliadwy ac arfarnu'r gwaith yn unol ag atebion cyfredol ac atebion yn ymwneud ag arferion gorau. Bydd SYA Cymru yn monitro'r gwelliannau amgylcheddol o ran cost er mwyn pennu methodoleg a dull mesur y gellid ei ddefnyddio ar gyfer asesu perfformiad amgylcheddol rhaglenni adnewyddu a chyfrannu at safonau yn y dyfodol.

Caiff gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni o fewn cartrefi presennol eu hyrwyddo ar lefel y DU ac ar lefel Cymru drwy ystod o reoliadau, cyngor a chymhellion. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi eu hunain fel rhan o Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae ganddynt hefyd rôl bwysig o ran darbwyllo landlordiaid a phreswylwyr lleol ynghylch manteision gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.

Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn cynghori deiliaid tai ynghylch y camau y gallant eu cymryd er mwyn arbed ynni gartref. Gall cartrefi cymwys elwa ar fesurau effeithlonrwydd ynni drwy raglen y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Mae cwmnïau ynni hefyd yn cynnig mesurau effeithlonrwydd ynni am bris gostyngol i'w cwsmeriaid drwy eu Rhaglenni Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni.

### Datblygu Ynni Cynaliadwy

Diffinnir microgynhyrchu fel y broses o gynhyrchu ar raddfa fechan wres a/neu drydan o ffynhonnell carbon isel, ac mae'n allweddol ar gyfer datblygu ffynonellau o ynni cynaliadwy. Datblygu diwydiant microgynhyrchu ar gyfer Cymru oedd un o ddeg prif ymrwymiad y cynllun gweithredu Datblygu Cynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer microgynhyrchu, sy'n cyd-fynd â strategaeth ficrogynhyrchu y DU, yn cynnwys targedau meincnodi sy'n dangos ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu'r farchnad ficrogynhyrchu.

Mae'r defnydd o atebion ynni adnewyddadwy yn allweddol ar gyfer cyflawni targedau uwch o ran ynni a hefyd yn bwysig o ran gwella effeithlonrwydd y stoc bresennol o dai. Mae hefyd yn agwedd allweddol ar bolisïau a rhaglenni sy'n anelu at fynd i'r afael â thlodi tanwydd.